

Staff y Cylch :

Karen Evans	Lefel 5
Wendy Jones	Lefel 3
Angela Roberts	Lefel 3
Ffion Roberts	Lefel 3
Ffion A Jones	Lefel 3
Emma Parry	Gweithio Tuag at Lefel 3
Medi Parry	Gweithio Tuag at Lefel 3

Mae holl staff y Cylch wedi eu gwirio hefo GDG ac wedi cwblhau ffurflen ddatgelu gwybodaeth cyn y dyddiad cychwynnol. Mae'r staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith ac yn parhau i dderbyn hyfforddiant yn y swydd. Mae staff y cylch yn meddu'r cymwysterau canlynol:

ELKLAN. Cwricwlwm i Gymru, Cynllunio i'r foment, Hylendid Bwyd. Cymorth Cyntaf. Amddiffyn Plant/. Tati Bumpkin. Traed Prysur. Cadw'n Heini. Dewin a Caleb. Cynllun Gwen. Jabadeo. Elisabeth Jarmen. Camau Cerdd a WellComm

Mae graddfa oedolion i blant, yn ôl eu hoedran, yn cyd-fynd gyda safonau AGC.

Am fwy o wybodaeth neu sgwrs bellach, cysylltwch gyda

Karen Evans, Arweinydd y Cylch :



Cylch Meithrin Seiont a Pheblig Canolfan Noddfa Cil Pebelig Caernarfon LL55 2RS

Rhif ffôn y Cylch : 07780112956

Arweinydd : Karen Evans
Is Arweinydd: Wendy Jones
Rhif Elusen: 1195099
Rhif Mudiad Meithrin : 772

Mae Cylch Meithrin Seiont a Pheblig wedi ei leoli yng Nghanolfan Noddfa ac yn agored i blant wedi iddynt gael eu hail ben-blwydd, hyd at eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae lle i 26 o blant yn y ddwy sesiwn, bore a'r prynhawn.

Nod y Cylch Meithrin yw darparu gofal ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir cyfleoedd i blant ddatblygu i'w llawn botensial tra yn y Cylch trwy gynnig cwricwlwm i Gymru a strategaethau dysgu ac addysg sef dysgu yn y foment. Bydd cyfle i bob plentyn o dan oedran ysgol fanteisio ar brofiadau cyn-ysgol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn rhoi profiadau sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Croesewir pob plentyn i'r Cylch gwaeth be fo'i liw, hil, dosbarth cymdeithasol, sefyllfa deuluol neu anghenion addysgol. Yr ydym yn gobeithio y bydd eich plentyn yn hapus yn y Cylch ac yn elwa o'r ddarpariaeth.

Mae'r Cylch yn aelod gyda Mudiad Ysgolion Meithrin, ac yn rhan o Ddechrau'n Deg. Mae'r Cylch yn dilyn polisiau MM ac wedi cofrestru gyda AGC: AGC, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ Ffôn – 03000625609

Polisiau

Wrth ymuno a'r Cylch Meithrin mae'r rhieni / gwarchodwyr yn cael eu hysbysu o "Ffolder Polisiau" y Cylch. Mae hwn yn nodi polisiau a threfn y Cylch yn y manau canlynol: -

POLISI AMDDIFFYN PLANT, AMDDIFFYN RHAG YR HAUL, ATHSMA, BWYTA'N IACH, BWYTA'N IACH A CADW'N HEINI, CADW PLANT RHAG CRWYDRO/PLENTYN AR GOLL, CANMOL A CHWYNO, CLUDO A THROGLWYDDO PLANT, CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH, CYFRINACHEDD A DIOGELU DATA, CYNHWYSIANT A CHYFLE CYFARTAL, DELWEDDAU DIGIDOL (Lluniau a Fideos) DERBYN, DI-FWG, DERBYN, E-DDIOGELWCH, RHEOLI YMDDYGIAD, STAFFIO, CHWYTHU'R CHWIBAN, RHEOLI LLAU PEN, NEWID CLWT.

Mae'r polisiau yma yn cael eu harwyddo ar ddechrau pob blwyddyn gan Gadeirydd y Pwyllgor / Person Cofrestredig i gadarnhau fod y Cylch yn mabwysiadu'r holl bolisiau. Wrth gofrestru caiff y rhieni weld copi o'r ffolder polisiau. Mae'r llyfr polisiau ar gael i'w darllen gan yr Arweinydd ar unrhyw adeg.

O ddydd i ddydd -

Amseroedd agor a chau-

Dydd Llun i Ddydd Gwener

Sesiwn bore: 9.10 y.b tan 11.40 y.b

Sesiwn prynhawn: 12.15 y.p tan 2.45 y.p.

Pwysig!!! Os nad yw eich plentyn yn gallu mynychu'r Cylch am unrhyw reswm, bydd angen rhoi gwybod i'r Cylch cyn gynted â phosib.

Os bydd eich plentyn yn dioddef o dolyr rhydd neu'n taflu i fyny gofynnwn yn garedig i chi gadw eich plentyn i fwrdd am 48 awr a pheidio dod â'ch plentyn i'r cylch os yn sâl.



Tatti Bumpkin

Cymeriadau'r Cylch



Caleb, Cai a Mai



Dewin a Doti

Ffi pob sesiwn yw £9.50 y plentyn yr wythnos. Fydd rhaid talu hwn yn llawn pob hanner tymor, Mae'r Cylch yn cynnig cynllun gofal plant 2 oed os bydd yn gymwys o dan eich côd post.

Mae caffï ar gael pob dydd i'r plant sydd yn annog bwyta'n iach. Mae'r fwydlen yn newid yn ddyddiol ac mae'r Cylch yn dilyn y cynllun Cyn Ysgol Iach a Boliau Iach.

Yn ystod y dydd fe fydd y plant yn cael cyfle i wneud bob math o weithgareddau yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru a cynllunio i'r foment Mae'r plant yn cael y cyfle i fod yn annibynnol a chael cyfle i weithio mewn grwpiau. Bydd holl waith y plant ar gael i fynd adref.

Mae'r Arweinydd dilyn Cynllunio i'r foment gyda gweithgareddau gwahanol yn cael eu cwblhau tu mewn a thu allan yn mhob tywydd.

Rydym yn defnyddio platform cyfathrebu Si-So a grwp rhieni (Messenger) i gyfathrebu efo rhieni a rhannu gwybodaeth. Bydd cyfrif pawb yn breifat Gwybodaeth ar gael ar wefan <http://noddfa.cymru/eng/nursery-school.html>

Mae'r Arweinydd yn cadw ffeil ar bob plentyn gan nodi ei bresenoldeb a'i ddatblygiad drwy'r flwyddyn. Ar ddiwedd blwyddyn cyflwynir adroddiad i'r rhieni ar ddatblygiad y plentyn trwy'r tymhorau i gyd. Mae croeso i'r rhiant / gwarchodwr drafod a'r staff unrhyw dro ddatblygiad ei blentyn yn y Cylch.



Tu Mewn, tu allan a staff y Cylch

